

Valérieane Leblond

**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?**

Yn Angers, gorllewin Ffrainc.

Ble aethoch chi i'r ysgol?

Yn Angers, Rennes ac yn Nantes.

Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?

Roeddwn wrth fy modd yn yr ysgol, yn gwneud celf, ysgrifennu straeon a dysgu geometreg.

Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?

Roeddwn am fod yn awdur.

Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?

Fy hoff lyfr oedd *The Ox-cart Man* gan Donald Hall a Barbara Cooney, stori am deulu o ffermwyr yn yr Unol Daleithiau.

Beth yw eich diddordebau?

Rwy'n hoff iawn o ddarlunio, darllen a choginio.

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?

Gweld fy mhlant yn hapus.

Beth sy'n eich gwylltio chi?

Bwlio.

Pryd ddechreuoch chi feddwl am fod yn ddarlunydd?

Rwy wastad wedi bod yn darlunio, ond dechreuais feddwl amdano o ddifri yn yr ysgol uwchradd.

O ble rydych chi'n cael eich syniadau?

O bob man o'm cwmpas: straeon dwi'n eu clywed, llyfrau rwy'n eu darllen, lluniau o'r Canol Oesoedd a lluniau modern.

Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?

Rwy'n hoffi darlunio byd natur, clywed straeon o'r gorffennol, a gweld yr hud a lledrith yn fy mywyd pob dydd.

Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio darlunio?

Mynd ati a chyfri pob llun fel ymarfer ar gyfer yr un nesaf.

Beth yw'r peth gorau/gwaethaf am fod yn ddarlunydd?

Y peth gorau, mwyaf hudolus yw gweld fy lluniau mewn llyfr a

dychmygu bod pobl dros y byd yn eu mwynhau nhw. Y peth gwaethaf yw sylwi 'mod i wedi anghofio rhywbeth wedi i'r llyfr fynd i'r wasg!

Cwestiynau Cyflym**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**

The Ox-cart Man gan Donald Hall a Barbara Cooney.

Hoff gymeriad o lyfr?

Max yn *Lle Mae'r Pethau Gwyllt yn Byw/Where the Wild Things Are* gan Maurice Sendak.

Hoff le?

Grisiau tu allan i dŷ Mam-gu ar ddiwrnod o haf.

Hoff fwyd?

Millefeuille (tebyg i sleisen gwstard ond yn llawer neisach!).

Hoff ffilm/rhaglen deledu?

Wall-E.

Hoff air?

Y gair Ffrangeg *nuage* sy'n golygu 'cwmwl'.

Superpower o ddewis?

Teleportio – er mwyn ymweld â fy ffrindiau a'm teulu mewn chwinc.

Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?

Instagram, achos mae gymaint o arlunwyr talentog arno.

Beth sy'n gwneud i chi wenu?

Fy mhlant.

Swydd tasech chi dim yn ddarlunydd?**Swydd ddelfrydol?**

Awdur.

Top tip i ddarlunwyr y dyfodol:

Paid byth â stopio darllen llyfrau plant a mwynhau'r lluniau.